

o wybodaeth i'r gynulleidfa, gyda'u casgliad amryfal o ganeuon swynol a bythgofiadwy o wahanol wledydd.

Oherwydd ei boblogrwydd, bu galw mawr ar John i fod yn feirniad - er ei fod bob tro yn cadw ei sylwadau mor gryno a phosibl. Yn ôl ei gyfoeswyr, yr oedd yn rhy garedig a hynaws fel person i or-feirniadu ei gyd-ddyn.

Ym 1926, daeth siwrnai bywyd John i ben, yn 94 oed. Ers iddo fod yn dair oed The Carpenter's Arms oedd wedi bod yn gartref iddo. Hen lanc oedd, a bu'n byw yn hapus yn y dafarn gyda theulu ei frawd, William - yr un a gymerodd drosodd fel tafarnwr ar ôl marwolaeth eu tad. Yn y gymdogaeth, roedd sawl perthynas yn ddiolchgar iawn iddo am yr hyfforddiant a'r gefnogaeth a gawsant ganddo. Yn y dafarn ei hun roedd bachgen a fanteisiodd fwy na neb ar haelioni a pharodrwydd ewythr John, a hwnnw oedd Tom Bryant, mab William.

Tom Bryant

Yn ôl y Geiriadur Bywgraffyddol, ganwyd Tom yn nhafarn The Carpenter's, Efail Isaf ar 22 Gorffennaf 1882. Cydnabyddir mai oherwydd presenoldeb ei ewythr athrylithgar y datblygodd Tom yn delynor disglair mor gyflym. Ac yntau'n dal yn blentyn, fe gipiodd wobrau o dan drwynau oedolion trwy'r wlad. Rhwng 9 ac 14 oed, fe gipiodd wobr gyntaf yr Eisteddfod Genedlaethol bob blwyddyn! Daeth yn amlwg y byddai ef yn mabwysiadu'r fantell fu'n addurno gyrfa ei ewythr enwog. Wedi tyfu i oed, dilynnodd Tom gamau yr hen offerynwr; roedd yntau'n rhan o driawd a oedd yn mynd o gwmpas y wlad gyda'u darlithoedd cerddorol. Yn achos Tom, y ddau arall oedd Watkin Hesecaia Williams, y darlithydd, a Robert Rees y tenor.

Yn 1906, ac yntau'n 24 oed, daeth Tom yn A.R.C.M. ac yr un flwyddyn, fe chwaraeodd yn y Pefformiad Brenhinol ar yr achlysur pan ddyrchafwyd Caerdydd yn ddinas. Ar ddiwedd y flwyddyn honno, gwahoddwyd ef unwaith eto gan y Brenin - y tro hyn i ddiwrnod agoriad y doc newydd yng Nghaerdydd.

Daeth Tom yn gyfansoddwr adnabyddus

Yn ystod ei yrfa, aeth Tom un cam ymhellach na John; yn ogystal â bod yn offerynwr o'r safon uchaf, fe ddaeth yn

gyfansoddwr adnabyddus hefyd. Tom oedd yn gyfrifol am gannoedd o ddarnau i'r delyn, a chafodd ganmoliaeth uchel yn enwedig am ei amrywiaethau ar y tonau. 'Merch y Felin' a 'Merch Megan'. I ychwanegu at ei enwogrwydd, Tom oedd un o'r telynorion cyntaf (os nad y cyntaf) i ddarlledu ar yr radio. Am y rhan fwyaf o'i oes, dilynnodd Tom y traddodiad teuluol o fod yn dafarnwr. O dan ei reolaeth ef roedd The Carpenter's Arms yn un o'r tafarnau mwyaf poblogaidd yn yr ardal. Mae'n rhaid bod a wnelo hyn rhywbeth â'r safon uchel o adloniant oedd ar gael yn y bar, lle bu piano a thelyn yn rhan o'r celfi parhaol.

Hawdd gweld cyffelybiaethau rhwng bywydau'r ewythr a'r nai, ond nid oedd Tom mor ffodus â John yn ei hirhoedledd. Aeth Tom i'r byd tu draw ar 13eg Ionawr 1946 yn 63 oed.

Cerddoriaeth yn y Gwaed

Petaech yn doddi pin unrhyw le yn achau y Bryantiaid, byddech yn siŵr o ddo ar draws cerddo o ryw fath. Does dim amheuaeth fod yr esiampl a ysgogwyd gan yr hen John wedi ysbrydoli nifer fawr o'r tylwyth.

Un arall o'r llwyth oedd Tudor Powell, mab i nith John. Enillodd Tudor wobrau niferus am ganu ar y delyn yn ystod y cyfnod rhwng y ddau Ryfel Byd. Yn fy amser i rwy'n cofio Mrs. Vi Davies, organyddes ac athrawes piano yr ardal, merch i chwaer John oedd 'Bopa Vi' fel y'i gelwid.

Cefndir dwylliannol Cymreig Pentyrch

Wrth ystyried stori'r Bryantiaid, dylem nodi dau beth a fyddai'n synnu'r darlennydd, efallai. Yn gyntaf, rhaid cofio taw yn Ne Ddwyrain Morgannwg mae sail llawer hanes y teulu talentog hwn. Yn rhy aml, yn y gorffennol, fe fu'n rhaid i mi wadu'r honiadau bod yr ardal hon heb gefndir diwylliannol Cymreig. Gobeithio fy mod wedi profi nad yw hyn yn wir o bell ffordd. Yr ail beth yw'r ffaith fod



Tudor Powell.

cededlaethau o'r teulu, er gwaethaf eu cysylltiad clos gyda Chapel Tabernacl yr Annibynwyr, Efail Isaf, wedi blodeuo yn awyrgylch y dafarn yn hytrach na'r meithrinfeydd arferol: sef yr eglwys a'r addoldai Anghydfurfiol. A oedd y teulu hwn felly yn adlais o'r hen amserau pan oedd bywyd gwerin yn cin gwlad fach yn fywiog ac yn llawn hwyl ac asbri? Beth bynnag yw'r esboniad, mae un peth yn glir; bod yr enw Bryant yn haeddu lle arbennig yn unrhyw gofnod o etifeddiaeth gerddorol ein cenedl.

Hyd yn oed heddiw, mae'r Garth, i raddau, yn dal i fod yn gartref i'r offeryn cenedlaethol. Mae mwy nag un chwaraewraig o'r radd flaenaf yn byw ar lechweddau'r mynydd, ac o fewn tafliad carreg, dros yr afon yn Ffynnon Tâf, mae siop sy'n gwerthu - TELYNAU!



Tom Bryant (am unwaith heb delyn).

Yn Eisiau

Thomas, Jennie, *Newid Byd*. Gwasg y Brython 1968. Addasiad o nofel Saesneg Megan Glyn, sef 'Simon Peter'.

Cysyllter ar (01248) 670 858

1. *Welsh Monumental Brasses* gan Amgueddfa Genedlaethol Cymru 1974.

2. Richard Ddu o Wynedd gan Mawddwy. Cyhoeddwyd 1906 gan H. Evans, Bala

Cysyllter â (01745) 813 173

1. Ben A. Jones, *Y Byd o Ben Trichrug* (Cymdeithas Lyfrau Ceredigion), Aberystwyth 1959.

2. J.R. Lloyd Hughes, *Nico Bach*, Hughes a'i Fab, Caerdydd 1949.

Cysyllter ar (01970) 828 577.

1. *Eleven Years in Central Southern Africa*, by the Revd. Thomas Morgan Thomas: John Snow & Co., 1872.

2. *Un Mlynedd ar Ddeg yng Nghanolbarth Deheuol Affrica* gan y Parchg. Thomas Morgan Thomas: James Wood, Bute Dock, Cardiff, 1873.

Cysyllter ar (01685) 873 226.

Ar Werth

1. Rhys Lewis yn cynnwys rhestr o'r tanysgrifwyr, c.c., peth addurn arno, arg. J. Ll. Morris Heol Newydd Y Wyddgrug. Dim dyddiad.
2. Mabinogion (O lyfr Coch Hergest). ail lyfr. Gol. J. M. Edwards, Y Rhyl 1901, ar. Hughes a'i Fab 1901.
3. Straeon y Pentan, Daniel Owen, Hughes a'i Fab 1931 c.c.: £5.
4. Taith y Pererin, tros. gan E. Tegla Davies, Arg. Hughes a'i Fab, 1931: £5.
5. Telynegion Maes a Môr, Eifion Wyn, the Educational Pub.Co., Caerdydd.
6. Crist a Chenedlaetholdeb, R.M. Jones, Gwasg Efengylaidd Cymru, Penybont ar Ogwr 1994.
7. Hen Drysorfa'r Plant (Dwy gyfrol) 1876-7 a 1878-9). gol. Levi Thomas.
8. Trysorfa'r Plant (Dwy gyfrol) 1920 1 1921, Gol. Anthropos.
9. Llyfrau'r Ford Gron III rhif 11-15, Gol. J. T. Jones,
10. Griffith Jones Llanddowror, Hyfforddiant i Ddarllen yn Rhwydd er Gwasanaeth Cyloch Ysgolion Rhâd, J. Evans, Caerfyrddin 1814; 1817; 1821.

Cysyllter ar 02084602570.